

Swydd-ddisgrifiad Trefnydd cymunedol

Gyda diolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym ni'n chwilio am drefnydd cymunedol i gefnogi cymunedau yng ngogledd-ddwyrain Cymru i adnabod a gweithio ar faterion sy'n cael effaith ar y cymunedau hyn. Byddwch chi'n gweithio gyda grwpiau amrywiol gan gynnwys grwpiau ffydd, sefydliadau cymunedol ac ysgolion, yn eu cefnogi nhw i gynnal ymgyrchoedd lleol a dylanwadu ar bobl sy'n gwneud penderfyniadau.

Cytundeb: Rydym wedi sicrhau arian ar gyfer y swydd hyd at Ragfyr 2024 ac rydym wedi ymrwymo i geisio arian i barhau gyda'r gwaith heibio i'r dyddiad hwnnw hefyd.

Cyflog: £27,202 - £31,152 a chyfraniad pensiwn 10%

- Mae ein pwyntiau cyflog yn seiliedig ar raddfa gyflog ieuenctid a chymunedol JNC. Buasem ni'n disgwyl ichi gychwyn ar bwynt 15, sy'n £27,202 ar hyn o bryd— ond fe allwn ni drafod pwynt uwch ar gyfer ymgeiswyr arbennig.
- Fe allwch chi symud un pwynt ar hyd y raddfa gyflog bob blwyddyn hyd at bwynt 20 (£31,152 ar hyn o bryd), yn dibynnu ar werthusiad blynyddol. Efallai y gallwn ni gynyddu'r cyflog i gyd-fynd gyda chostau byw yn ôl penderfyniad ein hymddiriedolwyr.

Oriau: Rhwng 30 a 37 awr yr wythnos. Fe allwn ni ystyried trefniadau gweithio hyblyg, ond a fydddech chi cystal â thrafod hyn gyda ni cyn ymgeisio.



Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio: Hanner dydd, dydd Gwener 24^{ain} o Fedi 2021.

Dyddiad cyfweild: Dydd Mawrth 5^{ed} o Hydref, yn Wrecsam (yn ddibynol ar gyfyngiadau Covid)

Dyddiad hyfforddiant: Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwn ni'n disgwyl ichi fynd ar hyfforddiant trefnu cymunedol preswyl o 6yh ar ddydd Gwener 15^{fed} o Hydref – 6yh ar ddydd Sadwrn 16^{eg} o Hydref 2019, ym Mhenmaenmawr



TCCWales

Rhai buddion:

- Byddwn ni'n cyfrannu 10% o'ch cyflog blynyddol i'ch cynllun pensiwn (bydd angen i chi gyfrannu 5%).
- 23 diwrnod o wyliau blynyddol a diwrnodau gŵyl y banc ar ben hynny. Bydd hyn yn cynyddu o ddiwrnod gyda bob blwyddyn o wasanaeth, hyd at 30 diwrnod a gwyliau banc ar ben hynny.
- Mynediad at Raglen Cymorth i Weithwyr, sy'n cynnwys llinell gymorth 24 awr, cyngor ariannol a chyfreithiol, adnoddau ar-lein, a sesiynau cwnsela.
- Hyd at ddwy sesiwn hyfforddi allanol y mis.
- Cyfleoedd hyfforddiant a datblygu: lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Cyfle i wneud newid go iawn mewn cymunedau.
- Y cyfle i weithio fel rhan o dîm bach, gan lunio agenda gyffredinol y sefydliad.

Byddwch chi'n adrodd i: Ein prif drefnydd cymunedol, ni fydd neb yn adrodd i chi.

I ymgeisio: Anfonwch neges e-bost at office@tcc-wales.org.uk â'ch CV a llythyr eglurhaol heb fod yn fwy na dwy dudalen A4. Sicrhewch fod y llythyr eglurhaol yn dangos yn glir sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol a restrir ym manyleb yr unigolyn.

Mae TCC yn gyflogwr cyfle cyfartal. Rydym ni'n croesawu ceisiadau gan bawb sy'n addas i ymgeisio beth bynnag ydy eu hil, rhyw, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol neu oed.

Ar gyfer trafodaeth gyfrinachol am y rôl, cysylltwch trwy e-bost â office@tcc-wales.org.uk i drefnu amser i siarad â Kay Polley neu Sam Rex-Edwards.

Cefndir a diben y swydd

Diolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yn 2019 gwnaethom lwyddo i ehangu ein tîm bach o staff, gan greu dwy swydd trefnydd cymunedol newydd. Bellach mae gennym swydd wag ar gyfer un o'r swyddi hynny, sy'n creu cyfle i ymuno â'n tîm.

Ymhlith aelodau TCC mae grwpiau ffydd, sefydliadau cymunedol ac ysgolion. Rydym yn gweithio i adeiladu grym gan ddefnyddio trefnu cymunedol. Mae hyn yn golygu ein bod yn meithrin cysylltiadau cryf, yn datblygu arweinyddiaeth gymunedol, ac yn creu newid systemig.

Fel trefnydd cymunedol, byddwch yn gweithio â chymunedau amrywiol, gan ganolbwyntio ar feithrin cysylltiadau. Byddwch yn cefnogi pobl i ddewis y materion cywir i weithredu arnynt, ac yn rhoi cymorth ymarferol i greu newid. Llauer o'r amser, byddwch yn gweithio i annog ac ysgogi pobl, meithrin hyder a chreu brwdfrydedd dros weithredu cyhoeddus.

Mae agenda TCC yn eang, oherwydd bod ein haelodau'n penderfynu ar y materion rydym yn gweithio arnynt. Bydd angen i chi allu dysgu'n gyflym am fater newydd, nodi gofynion ymgyrch y gellir eu cyflawni, a chreu cyfle i arweinwyr cymunedol gyfarfod yn uniongyrchol â'r rheiny sy'n gwneud y penderfyniadau.

Byddwch hefyd yn dod o hyd i grwpiau o aelodau newydd ac yn eu recriwtio – yn enwedig yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi fod yn hyderus wrth gyfathrebu, gallu



TCCWales

sefydlu cysylltiadau newydd ac arddangos yn effeithiol sut mae trefnu cymunedol o fudd i unigolion a chymunedau.

Byddwch chi'n derbyn cefnogaeth gan ein prif drefnydd cymunedol, ond bydd angen ichi gyflawni llawer o'r gwaith ar eich liwt eich hun. Felly, bydd angen i chi reoli eich llwyth gwaith eich hun a meddwl yn strategol. Weithiau, bydd angen ichi herio pobl sydd ag awdurdod ac ysbrydoli eraill i wneud yr un peth yn adeiladol ac yn effeithiol.

Byddwn ni'n rhoi hyfforddiant ichi ac yn eich mentora ar drefnu cymunedol, felly, does dim angen unrhyw brofiad blaenorol – er, efallai bydd o gymorth gyda'ch cais.

Bydd arnoch chi angen:

- Meithrin perthynas gyda gwahanol grwpiau, yn arbennig yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych.
- Sgwrsio un-i-un gyda phobl o grwpiau lleol.
- Cefnogi pobl o grwpiau lleol i ddewis materion a mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys cefnogi eu hymchwil, dod o hyd i gynghreiriaid a chyfarfod gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn gwneud i bethau ddigwydd.
- Helpu i drefnu a mynd i gyfarfod strategol misol yr aelodau.
- Helpu i gynllunio a darparu hyfforddiant trefnu cymunedol, gan gynnwys o leiaf un arhosiad preswyl y flwyddyn.
- Gweithio gyda'r tîm o staff ac arweinwyr cymunedol i lunio, cynllunio a darparu digwyddiadau.
- Cyfrannu at strategaeth, cyfeiriad a nodau TCC.
- Meithrin perthynas gyda phobl gyhoeddus allweddol, rhai sy'n darparu gwasanaethau a'r rhai sydd ag awdurdod.
- Ymchwilio i bolisiâu a materion presennol o'r swyddfa.
- Cyfrannu at ein gwaith codi arian: helpu gyda'n wythnos codi arian flynyddol a chyda cheisiadau grant.
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau economaidd, polisiâu cyhoeddus, tueddiadau cymdeithasol a pherthynas grym lleol a chenedlaethol.
- Gweithio gydag asiantaethau allanol a sefydliadau partner.
- Cyfrannu at ein gwefan a'n presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol.
- Cyfrannu at ein cylchlythyr a dulliau eraill o gyfathrebu gyda'n haelodau a'n cefnogwyr.
- Ysgrifennu adroddiadau cynnydd i gyllidwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau.
- Unrhyw dasgau eraill yn ôl y gofyn.

Gwybodaeth bellach

- Os byddwch chi'n gweithio llai na 37 awr yr wythnos, byddwn ni'n gostwng eich cyflog yn gymesur â hyn.
- Byddwch chi'n cychwyn gyda chyfnod prawf o chwe mis.
- Bydd angen car arnoch chi, a byddwn ni'n talu costau teithio ar gyfradd o 45c y filltir.



TCCWales

- Bydd angen i ni sicrhau adroddiad datgelu o wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
Ni fydd bod ag euogfarn o reidrwydd yn eich eithrio rhag derbyn gwaith, bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau a pha mor berthnasol ydy hi i'r swydd.

Manyleb person

H = meini prawf hanfodol.

D = meini prawf dymunol.

Profiad

Profiad o gydweithio gyda chymunedau/gweithredwyr/gwirfoddolwyr amrywiol.	H
Profiad o ddarparu sesiynau neu weithdai hyfforddiant yn llwyddiannus.	H
Profiad o arwain, ysbrydoli a rhoi cymhelliant i bobl eraill.	H
Profiad o/gwybodaeth am drefnu cymunedol.	D
Profiad o weithio yn uniongyrchol gyda phobl sy'n wynebu cam neu anfantais.	D
Profiad o ddatblygu ac arwain ymgyrchoedd strategol effeithiol.	D
Profiad o weithio gyda phobl sydd ag awdurdod neu bobl gyhoeddus.	D
Profiad o ddylanwadu ar bolisiau/pobl sy'n gwneud penderfyniadau.	D
Profiad o gefnogi grwpiau cymunedol i weithredu ar bethau.	D
Profiad o gyfrannu at/ysgrifennu ceisiadau grant a chodi arian.	D
Profiad o drefnu digwyddiadau.	D
Profiad o ysgrifennu datganiadau i'r wasg/gweithio gyda'r cyfryngau.	D

Sgiliau

Gallu meithrin perthynas yn sydyn gyda nifer fawr o wahanol bobl, gan gynnwys o fewn cymunedau dan anfantais.	H
Gallu cychwyn ymgyrchoedd cymunedol trwy rymuso, cynnull a chefnogi arweinwyr cymunedol.	H
Gallu meddwl yn strategol a rhoi sylw manwl i unrhyw fanylion.	H
Gallu gweithio yn rhan o dîm bach.	H
Gallu cyflwyno cyflwyniadau cyhoeddus cadarn i wahanol gynulleidfaoedd.	H
Gallu ysgrifennu adroddiadau ac unrhyw ddogfennau ysgrifenedig eraill.	H



TCCWales

Charity no/rhif elusen: 1086434

Company no/rhif cwmni: 04033853

Cynnal eich cymhelliant eich hun, gweithio yn annibynnol a rheoli eich amser eich hun.	H
Gallu cynrychioli'r sefydliad ar lefel uchel, gydag ymddygiad proffesiynol.	H
Bod â gallu uchel i weithio ar-lein, gallu ymchwilio a gweithio ar bolisïau ar-lein a defnyddio cyfryngau cymdeithasol.	H
Sgiliau TG ardderchog, gyda gallu uchel wrth ddefnyddio pecynnau tebyg i Microsoft Word, Excel, a Publisher. Gallu rheoli gweinyddiaeth eich hun.	H
Gallu rheoli tensiwn a gwrthdaro.	H
Gallu cyfathrebu yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Saesneg.	H
Gallu cyfathrebu yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg.	D
Gwybodaeth dda am ogledd-ddwyrain Cymru a gwahanol gysylltiadau.	D
Dealltwriaeth dda o gyd-destun gwleidyddol Cymru a phrosesau gwneud penderfyniadau lleol.	D

Rhinweddau

Angerdd dros gyfiawnder cymdeithasol ynghyd â dull strategol o sicrhau newid.	H
Ymrwymiad cryf i werthoedd a gweledigaeth TCC.	H
Diddordeb gwybodus mewn bywyd cyhoeddus a materion cyfoes.	H
Gallu uniaethu gyda, a gweithio gyda phobl o draddodiadau ffydd gwahanol a rhai heb ffydd.	H

Cymwysterau

Cymwysterau sy'n cyfateb i lefel 2 mewn Saesneg a Mathemateg, e.e. TGAU gradd A*- C.	H
Addysg hyd at lefel gradd neu uwch.	D
Gyda chymhwyster perthnasol e.e. mewn gwaith cymunedol neu wleidyddiaeth.	D

Arall

Gallu gweithio rhai nosweithiau a phenwythnosau.	H
Parodrwydd i deithio, gan gynnwys aros dros nos rhai adegau.	H
Parodrwydd i dderbyn hyfforddiant.	H
Bod car ar gael ichi ei ddefnyddio er mwyn gofalu am eich cludiant eich hun.	H





Manylion cyswilt

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities)

37 Ffordd Kingsmills

Wrecsam

LL13 8NH

01978 262588 / office@tcc-wales.org.uk



TCCWales

Charity no/rhif elusen: 1086434

Company no/rhif cwmni: 04033853